

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Rhydymain  
Nos Fawrth, Medi 19, 2017 am 7:30 o'r gloch.**

**Preseanol** Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones, Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Hugh A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Nid oedd ymddiheuriadau.

**3. Datgan diddordeb.**

Roedd Llion Rh. Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 7.b.2.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 18, 2017**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 18, 2017**

Eitem 6.e. Llythyr (27/6/2017) oddi wrth Gwasanaeth Eiddo, Cyngor Gwynedd ynglŷn â dyfodol safle Ysgolion Brithdir a Llanfachreth. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau (30/6/2017).

Ynglŷn ag Ysgol Llanfachreth penderfynwyd rhoi gwybod i'r Adran:

Nid yw'r Maes Parcio nesaf at safle'r ysgol yn perthyn i'r Ysgol. Lle cyhoeddus i'r gymuned yw'r Maes Parcio.

Mae y Cyngor Cymuned gyda diddordeb o gael y Cae Chwarae gyferbyn a'r ysgol.

Am nad oes brys i roi ateb ar y mater, gwell trafod y mater ymhellach.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Adran:

Mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd perchnogaeth o'r maes parcio sydd nesaf at safle Ysgol Llanfachreth am y swm o £1.

Mae'r Cyngor yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwydda y Cae Chwarae Gyferbyn a Ysgol Llanfachreth i'r Cyngor.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEDI 19, 2017

Eitem 8.c. Llythyr ateb (4/8/2017) oddi wrth Welsh Council Audits. Maent yn amodi ein harchwiliad blynyddol. Maent yn nodi nid oeddem wedi cofnodi ein bod wedi derbyn y Cod Ymddygiad yn ystod flwyddyn yr archwiliad h.y. 2016/2017.

Rhodddwyd gwybod iddynt (12/8/2017) nid ydym eisiau trafod y mater ymhellach (fel maent yn awgrymu). Rhodddwyd gwybod iddynt hefyd ein bod wedi nodi'r materion codwyd o'r Archwiliad.

## **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (27/7/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi manylion am y Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar ddydd Sadwrn, 30ain Medi, 2017.

b. Llythyr (15/8/2017) oddi Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Cyngor yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher, Medi 13, 2017 am 6.30yh.

c. Llythyr (21/8/2017) oddi wrth Wales Rally GB yn rhoi gwybod bydd World Rally Championship yn yr ardal ar ddydd Sadwrn, Hydref 28, 2017 o hanner dydd tan 6.00yh. Mi fyddant yn teithio o Cross Foxis - Brithdir - i gyfeiriad Bala.

ch. Llythyr (24/8/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod arwyddion a chlirio llwybr wrth Moel Friog.

d. Llythyr (4/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Medi 26, 2017 am 7.00yh. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o Brifysgol Betsi Cadwaladr. Amgáu mae Agenda a Chofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd Mehefin 21, 2017.

dd. Llythyr (5/9/2017) oddi wrth Arfon Hughes ynglŷn cyfarfod cyhoeddus i sefydlu papur newydd Y Dydd yn yr ardal. Bydd y cyfarfod nos Fercher, Medi 13, 2017 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (18/7/2017) gyda canlyniadau o'r cyfarfodydd blynyddol cafwyd yn ddiweddar rhwng yr Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod a chynrychiolwyr o'r Cynghorau Cymuned. Cafwyd cyfarfod yn Coed y Brenin, Aberdyfi a Plas y Brenin.

b. Ceisiadau cynllunio

1. NP5/54/E554. Ymgynghoriad o dan Rhan 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i osod cyflenwad tanddaearol. Tir Rhwng Hywel Dda a Capel Soar, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (20/8/2017).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEDI 19, 2017

2. NP5/54/450A. Cynllun trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 34KW yn cynnwys argae, pibell danddaearol, adeilad tyrbin, all-lif, cysylltiad grid tanddaearol, a trac mynediad dros dro. Nant Helyg, Abergeirw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (20/8/2017).

3. NB5/54/LB197C. Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau allanol yn cynnwys ail-doi, ychwanegu ffenestri to ac amnewid nwyddau dŵr glaw; tanategu rhan o'r wal allanol, adfer corn mwg a rhan uchaf y talcen de gorllewinol a ffurfio agoriad newydd i'r estyniad penty, ailagor agoriad ffenest ar y dyrchafiad cefn, ail-bwyntio; atgyweirio ac amnewid drysau a ffenestri, ychwanegu drysau ar ddrychiad blaen yr estyniad penty; ychwanegu gwyntyllu mecanyddol a ffliw bwyler, a newidiadau mewnol yn cynnwys cloddio'r llawr isaf a gosod llawr concriid; ffurfio agoriadau drws yn y wal fewnol, ychwanegu pared yn yr estyniad penty ac addasiadau i baredau; ychwanegu ystafell ymolchi ensuite; ychwanegu gwres canolog. Newidiadau i adeilad cwrtil. Ffrwd yr Hebog, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

## **8. Materion Ariannol**

- a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf 2017: £1,136.47.
- b. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf 2017: £5,578.78.
- c. Rhoddwyd cais (30/8/2017) i HMRC am ad-daliad TAW, £170.00, am y cyfnod 2014-2015, 2015-2016 a 2016-2017.
- ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst 2017: £1,136.51.
- d. Balans yn y banc ar 29 Awst 2017: £5,578.78.
- dd. Bil (6/9/2017) am £250.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gostau etholiad mis Mai 2017. Mae'r costau tuag at Swyddog Canlyniadau (£75.00 x 2 (Brithdir a Machreth)), Cymorth Clerigol (£32.00 x2 (Brithdir a Machreth)) a Pac Enwebu (£12.00 Brithdir, £24.00 Machreth).

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEDI 19, 2017

e. Llythyr (7/9/2017) oddi wrth BDO, archwiliwr allanol. Amgáu mae'r Ffurflen Flynyddol sydd wedi cael ei derbyn a chymeradwyo. Hefyd amgáu mae argymhellion dylid eu dilyn:

Mae angen:

i. cyflwyno'r Ffurflen Flynyddol i'r cyngor a'i fod yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn gan y cyngor.

Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei gymeradwyo a'i dderbyn gan y cyngor.

ii. rhoi gwybod i'r cyngor materion sy'n codi, a dylid cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y bydd y materion yn cael eu trin. Materion codwyd:

Cod Ymddygiad. Nid oedd y Cod wedi cael ei gofnodi yn ystod 2016/17 ac mae angen gwneud cyn gynted â phosibl.

Mae'r Cod wedi cael ei gofnodi yn ein cyfarfod Mehefin 20, 2017.

Cofrestr Asedau. Nid oes gan y cyngor gofrestr asedau.

Mae gan y Cyngor gofrestr asedau.

Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth (blwch 14 yn y Ffurflen). Mi ddylai'r ateb yn y blwch fod yn 'Na'.

Materion bach. Newidiwyd ffigwr am 2016 ac ni chaniateir hyn.

Newidiwyd y ffigwr oherwydd gwybodaeth ein hyswariant ar werth ein hasedau.

Asedau sefydlog.

Mae'r wybodaeth gan ein hyswariant yn gwneud hi'n anodd penderfynu gwerth ein hasedau. Mae disgwyl bydd y wybodaeth yn glir gan ein hyswariant newydd.

Mae'r Cyngor wedi nodi y materion cafwyd gan BDO.

Amgáu hefyd mae: Rhybudd o ganlyniad archwiliad (i'w arddangos cyn 30/9/2017) a ffurflen Arolwg bodlonrwydd yr archwiliad.

Bydd y Rhybudd (Cymraeg a Saesneg) yn cael ei roi ar wefan y Cyngor.

f. Bil (14/9/2017) am £187.20 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2016/17 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £345.75)

Penderfynwyd talu'r bil.

### **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

### **10. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

i. mae agen symud bin halen sydd tu draw i Hengwrt i groesffordd Eisingrug. Yn ei leoliad presennol dim ond dau dŷ sydd yn manteisio ohono ond gyda ei leoliad newydd bydd yn cael fwy o ddefnydd oherwydd mae rhiw yn serth a thraffig yn fwy.

ii. mae angen gwella wyneb y ffordd Caerdefaid, Rhydymain oherwydd tyllau. (Mae hwn yn hen gwyn).

iii. mae angen gwneud gwaith ar ffordd Hermon i Hafod Owen i gael gwared o ddŵr sy'n sefyll ar y ffordd.

iiii. mae angen gwneud gwaith ar lwybr sy'n mynd o'r ffordd A494 i Esgairgawr. Mae'r afon yn tanseilio'r llwybr.

b. Mae Emlyn Roberts am baratoi llythyr Ymgynghoriad 'Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy' sy'n cael ei wneud gan Llywodraeth Cymru.

Llofnod:

Dyddiad:

-----